OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1096 (Cy.135) (C.35)

Y GYMRAEG, CYMRU

Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 5) 2012

Gwnaed - - - - 13 Ebrill 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 150(5) a 156(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 5) 2012.

Cychwyn

2. Daw darpariaethau canlynol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i rym ar 17 Ebrill 2012—

(a) adran 22 ac eithrio isadran 2(b) i (d) a'r diffiniad o "ymchwiliad i orfodi safonau" yn isadran (9);

(b) adran 24; ac

(c) adran 44.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

13 Ebrill 2012

(**1**) 2011 mccc 1.